Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Penmaes

**Ffordd y Gamlas**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 7HL**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol mewn fformat i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Penmaes

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Penmaes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 100 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 67 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 1 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 46.8%) | 44.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 100.0%) | 100% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 22/01/2024 |

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae Ysgol Penmaes yn ysgol ddydd arbennig yn Aberhonddu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 mlwydd oed. Mae 111 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan bob un o’r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun datblygu unigol (CDU) statudol.

Mae gan lawer o ddisgyblion awtistiaeth, gan gynnwys anawsterau lleferydd ac iaith. Mae gan ryw draean o ddisgyblion anawsterau dysgu difrifol. Yn ychwanegol, mae gan ychydig o ddisgyblion anghenion corfforol a meddygol ac/neu anawsterau dysgu cymedrol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion anawsterau dysgu dwys a lluosog ac/neu anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion nam ar eu clyw neu nam ar eu golwg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae ychydig dros ddau o bob pump o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae 12 dosbarth, ac fe gaiff disgyblion eu grwpio yn ôl gallu, angen dysgu ychwanegol (ADY) ac oedran, yn gyffredinol. Mae tua naw ym mhob dosbarth. Mae un o'r dosbarthiadau hyn wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Y Groes (Crossgates) yn Llandrindod, rhyw awr o brif safle'r ysgol yn Aberhonddu.

Mae 15 o athrawon, gan gynnwys y dirprwy bennaeth a'r penaethiaid cynorthwyol, a 43 o gynorthwywyr addysgu. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2022 ac roedd yn ddirprwy bennaeth cyn ei phenodi. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2015.

Mae'r ysgol wedi'i chomisiynu gan yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaeth allymestyn i ysgolion prif ffrwd. Ni chafodd hyn ei gynnwys yn yr arolygiad.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Penmaes yn darparu system gymorth gref ar gyfer lles emosiynol disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod eu pryderon bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif gan bob aelod o staff. Mae athrawon a staff cymorth yn cydweithio i baratoi profiadau dysgu ystyrlon sy'n diwallu anghenion y disgyblion. Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas ac yn datblygu medrau gwerthfawr sy'n briodol i'w hanghenion a'u galluoedd unigol.

Mae'r pennaeth wedi gweithio gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni i greu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio'n gadarn ar greu 'unigolion llwyddiannus, iach a meithrin rhagoriaeth' ('successful, healthy, individuals and nurturing excellence') (SHINE).

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff o fewn amgylchedd yr ysgol. Mae achosion o fwlio yn brin. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'r system gymorth sydd ar gael iddynt pan fyddant yn profi tristwch neu anhapusrwydd. Mae hyn yn cynnwys gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni ac asiantaethau eraill. O ganlyniad, mae presenoldeb yn yr ysgol wedi dangos tuedd o wella dros gyfnod o dair blynedd.

Mae'r ysgol yn cydweithio â'r awdurdod lleol i sicrhau ymdriniaeth gyflym ac effeithiol â'r pryderon a godir ynghylch diogelu. Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n gryf i les a diogelwch plant.

Mae addysgu effeithiol yn canolbwyntio ar brofiadau dysgu cynlluniedig, unigoledig ac ystyrlon sydd wedi'u teilwra i anghenion disgyblion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o adnoddau cyfarwydd i gynnal ymgysylltiad. Mae athrawon yn ymgysylltu'n dda â disgyblion trwy holi syml a thargedig, ac yn rhoi digonedd o amser iddynt feddwl. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau fel lluniau yn effeithiol i'w cynorthwyo i fynegi emosiynau, ac o ganlyniad, mae medrau cyfathrebu disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae medrau disgyblion i weithio'n annibynnol yn datblygu'n raddol, gyda thasgau fel paratoi ar gyfer egwylion a dewis gweithgareddau'n annibynnol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn ystyried dysgu blaenorol disgyblion yn ddigon da, ac mae cyflymdra araf gwersi a her annigonol yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Nid yw sicrhau ansawdd yr addysgu yn darparu digon o fanylion ar feysydd i'w gwella i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu harfer ymhellach.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod cynllunio ac addysgu yn rhoi ystyriaeth ddigonol i anghenion a galluoedd y disgyblion ac yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol

A2 Sicrhau bod hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac asesu, yn canolbwyntio'n glir ar wella addysgu a dysgu

A3 Parhau i weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod y pwll hydrotherapi yn cael ei atgyweirio a'i gomisiynu ar gyfer ei ddefnyddio cyn gynted ag y bo modd

A4 Parhau i weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r cymorth a ddarperir gan wasanaeth nyrsio'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Medrau cymdeithasol ac ymddygiad disgyblion

At ei gilydd, mae staff cymorth yn hynod effeithiol o ran cefnogi dysgu'r disgyblion a'u helpu i reoli eu hemosiynau. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda iawn. Maent yn cyfarch a siarad ag ymwelwyr yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dechrau ac yn cynnal sgyrsiau'n hyderus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol, ar y safle lloeren ac yn y dosbarth. Ceir awyrgylch digynnwrf a chroesawgar o gwmpas yr ysgol ac ar y safle lloeren. Mae staff yn atgyfnerthu arferion ac yn adnabod eu disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymgysylltu'n dda iawn ag ymwelwyr, staff a chyfoedion. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol ac eisiau dangos eu gwaith a'u hysgol i ymwelwyr. Mae pob un o'r disgyblion yn hyderus ac yn aeddfed pan fyddant yng nghwmni ei gilydd. Dangosant barch ac edmygedd i'w cyd-ddisgyblion ar y ddwy ochr.

**Cameo – llais y disgybl a rolau arwain**

Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn rolau arwain yn yr ysgol, a'u datblygu, er enghraifft trwy'r Cyngor Ysgol a bod yn hyfforddwyr chwaraeon. Mae disgyblion yn ymfalchïo'n fawr mewn cael eu penodi i swyddi o'r fath, yn parchu'r cyfrifoldebau hyn, ac yn gwerthfawrogi eu bod yn meithrin perthnasoedd i gydweithio â staff. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt a bod eu barnau'n cael eu gwerthfawrogi. Yn ddiweddar, cyfarfu aelodau o'r Cyngor Ysgol ag aelodau o Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru a chyfrannu at drafodaethau ar gael mynediad cyfartal at addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Rhannon nhw eu profiadau a'u barn ar gymorth ac adnoddau yng Nghymru ar gyfer y rhai ag anghenion ychwanegol. Mae llais y disgybl yn gryfder yn yr ysgol.

Mae pryder a rhwystredigaeth gynyddol ymhlith rhieni a disgyblion fel ei gilydd nad yw pwll hydrotherapi'r ysgol wedi cael ei ddefnyddio am sawl blwyddyn. Mae hyn o bosibl yn cael effaith negyddol, er enghraifft ar allu'r disgyblion o ran balans, cydsymud, symudedd ar y cyd, ac o ran ymlacio'r cyhyrau. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol yn elwa'n gyson ar wasanaeth nyrsio'r ysgol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r ysgol a'r rhieni gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion, a'u cefnogi.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rheoleiddio dyddiol, y maent yn eu dewis yn annibynnol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ioga, dawnsio a chanu, darllen, trafod â staff neu sgwrsio'n hamddenol â ffrindiau. Mae'r sesiynau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgynefino o'r newydd â'r ysgol bob dydd. Mae hyn yn hynod bwysig ar gyfer y rhai sydd efallai wedi teithio ymhell i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach a pharatoi ar gyfer bod yn oedolyn trwy amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn profiad gwaith oddi ar y safle ac ar y safle, yn ogystal â chymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu dealltwriaeth o hawliau a chyfrifoldebau.

Caiff disgyblion gyfleoedd i gydweithio â'u cyfoedion o'r ysgol uwchradd leol, er enghraifft ar brosiect cynaliadwyedd. Mae amrywiaeth eang o dripiau a gweithgareddau yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion o'r ardal leol a'r amrywiaeth yng Nghymru. Mae'r profiadau hyn yn cefnogi datblygiad hyder a hunan-barch disgyblion yn gadarnhaol.

**Cameo – cyfnod pontio ar gyfer disgyblion newydd a'r rhai sy'n mynd ymlaen i addysg bellach**

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio cadarn ar gyfer disgyblion sy'n ymuno ag Ysgol Penmaes, a'i gadael. Cyn i ddisgyblion ymuno â'r ysgol, mae staff yn ymweld â disgyblion yn eu man dysgu presennol. Maent yn arsylwi disgyblion ac yn cael sgyrsiau pwysig â staff. Yn ychwanegol, mae rhieni'n ymweld ag Ysgol Penmaes. Maent yn cwrdd â staff allweddol ac yn dod yn gyfarwydd â'r ddarpariaeth a gynigir gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i sefydlu perthnasoedd ystyrlon â theuluoedd a chynllunio'r ddarpariaeth yn Ysgol Penmaes. Caiff disgyblion sy'n gadael yr ysgol eu cynorthwyo gan ymweliadau, arweiniad priodol, ac ystyriaeth ofalus i addasrwydd cyrsiau. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn teimlo'u bod yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r pennaeth yn cadw mewn cysylltiad ag ymadawyr, ac mae'r ysgol yn cymryd camau priodol os yw disgyblion mewn perygl o roi'r gorau i'w haddysg. Mae cyn-ddisgyblion yn dod yn ôl i roi cyflwyniadau i ddisgyblion hŷn am eu profiadau o adael, a sut maent yn gwneud ar hyn o bryd.

**Newidiadau yn Ysgol Penmaes**

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gymharol newydd ac mae aelodau'n dechrau cydweithio â'i gilydd a'r tîm staff ehangach. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys pennaeth cynorthwyol ar secondiad. Nid yw'n glir a fydd y secondiad hwn

yn parhau, a bydd hynny o bosibl yn effeithio ar gyflymdra cyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn glir iawn am strwythur y cwricwlwm newydd sydd wedi cael ei roi ar waith, ac mae'r cwricwlwm yn cael ei ddatblygu ar y cyd â staff addysgu. Mae'r cynllunio yn fanwl a ffocysedig. Mae cynlluniau datblygu yn caniatáu ar gyfer myfyrio gwerthfawr. Fodd bynnag, nid yw camau ar gyfer gwella yn canolbwyntio cystal ag y gallent ar addysgu a dysgu.

Mae arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio themâu. Mae pob thema yn cynnwys y wybodaeth a'r medrau disgwyliedig y bydd disgyblion yn eu datblygu, ac archwilir thema gyffredin bob tymor. Caiff athrawon dosbarth y rhyddid i drefnu'r profiadau dysgu ar gyfer disgyblion o fewn bwriadau dysgu a chynlluniau dilyniant. Fodd bynnag, ac yn rhannol gan mai megis dechrau cael ei roi ar waith y mae'r cwricwlwm, mae'r cysylltiadau rhwng y cynllunio strategol, y cynlluniau gwaith a'r hyn sy'n cael ei addysgu mewn ystafelloedd dosbarth yn datblygu o hyd.

Megis dechrau datblygu y mae ymagwedd ysgol gyfan at werthuso priodoldeb trefniadau'r cwricwlwm newydd a'u heffaith ar gynnydd disgyblion.

Mae darpariaeth y cwricwlwm ar gyfer disgyblion hŷn wedi cael ei gryfhau'n ddiweddar gan uwch arweinwyr, ac mae'n cynnwys ystod fwy priodol o opsiynau dysgu galwedigaethol erbyn hyn. Mae'r ysgol yn arwain ar gamau gweithredu i ymestyn ei darpariaeth ôl-16 ymhellach ar y cyd â'r awdurdod lleol. Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion hŷn ddyheadau clir a realistig ar gyfer y dyfodol. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn dilyn cymwysterau TGAU mewn partneriaeth â'r uned cyfeirio disgyblion leol.

Mae disgyblion hŷn yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i fynd i goleg lleol ar gyfer sesiynau rhagflas mewn amrywiaeth o feysydd galwedigaethol. Mae'r cyfleoedd hyn, yn ogystal â'r cymorth a gânt gan yr ysgol, yn eu cynorthwyo'n dda wrth benderfynu beth hoffent ei astudio yn y coleg. Mae disgyblion yn dweud eu bod yn dysgu am addysg cydberthynas a rhywioldeb, gan gynnwys newidiadau i'w cyrff a'u hemosiynau. Gwnânt hyn â chryn aeddfedrwydd.

Mae'r ysgol yn dal ystod eang o ddata sy'n dangos y cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod. Yn ddiweddar, mae ymagweddau at olrhain cynnydd disgyblion wedi newid, ac mae'r drefn o ran dadansoddi hyn yn cael ei chryfhau.

## Addysgu a dysgu

Pan mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae staff yn cynllunio profiadau dysgu unigol ac ystyrlon sy'n gweddu i anghenion disgyblion. Pan mae staff yn cynllunio ac yn trefnu bod ystod o adnoddau ar gael y mae disgyblion yn gyfarwydd â'u defnyddio, mae disgyblion yn fwy tebygol o barhau i ymgysylltu â gweithgareddau. Mae'r defnydd o holi gan staff yn fwyaf effeithiol pan mae'n syml ac wedi'i gyfeirio at ddisgyblion unigol, a rhoddir digon o amser i ddisgyblion feddwl cyn ateb. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu bob amser yn rhoi ystyriaeth lawn i ddysgu blaenorol na

dealltwriaeth disgyblion. Mae cyflymdra araf y gwersi yn cyfyngu ar y cynnydd y gall disgyblion ei wneud yn y gwersi hynny.

At ei gilydd, mae athrawon yn rheoli dosbarthiadau a disgyblion yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn cydymffurfio ac yn gweithio'n ddiwyd. Maent yn dyfalbarhau â gweithgareddau hyd yn oed pan nad ydynt yn deall yn llawn beth y gofynnwyd iddynt ei wneud.

Cynhelir asesiadau athrawon o ddisgyblion trwy deithiau dysgu disgyblion unigol, sydd wedi'u cysylltu ag amcanion CDU. Nid yw'r cynllunio eglur o ran llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi'i wreiddio eto, ond mae'n cael ei gyflwyno i ddarpariaeth y cwricwlwm yn gynyddrannol.

At ei gilydd, mae medrau cyfathrebu disgyblion yn datblygu ar gyflymdra sy'n briodol i'w hanghenion. Er enghraifft, wrth gofnodi arsylwadau am bobl yn teimlo'n ofnus, mae disgyblion yn cyfleu syniadau ac yn defnyddio amrywiaeth o ansoddeiriau yn gywir i gyfleu eu harsylwadau; er enghraifft, gorbryder, adrenalin, chwysu, ac ansoddeiriau sy'n dangos y gwrthwyneb i fod yn ofnus, fel teimlo'n anhygoel, yn hyderus ac yn ddewr. Lle bo'n briodol, mae staff yn defnyddio arwyddion a symbolau i gyfathrebu â disgyblion trwy gydol gweithgareddau. Ymgorfforir hyn yn dda yn ymarferol, ac mae'n cefnogi disgyblion yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ar gyfer annibyniaeth trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Cânt eu hannog i baratoi ar gyfer amseroedd egwyl trwy wisgo cotiau a welintons, ac mae disgyblion hŷn yn dewis eu gweithgareddau eu hunain yn annibynnol yn ystod amser rheoleiddio. Fodd bynnag, nid yw tasgau sy'n gofyn i ddisgyblion weithio'n annibynnol bob amser yn ddigon heriol.

Mae disgyblion yn elwa ar ardal eang yn yr awyr agored. Ceir amrywiaeth o offer chwarae yn yr awyr agored, gan gynnwys siglenni, offer campfa awyr agored, cylchynau pêl-rwyd a goliau pêl-droed, sy'n cael eu defnyddio'n dda ac yn frwdfrydig gan lawer o ddisgyblion. Mae disgyblion yn datblygu medrau pwysig, gan gynnwys medrau echddygol bras, balans a chydsymud. Yn y gasebo gorchuddiedig, mae disgyblion yn cymdeithasu â'i gilydd.

### Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n dda â rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr fel rhan o'u trefniadau hunanwerthuso, ac yn defnyddio adborth i bennu blaenoriaethau gwella. Mae blaenoriaethau gwella yn briodol, at ei gilydd, ac yn cynnwys camau gweithredu addas ar gyfer arweinwyr a llinellau amser ar gyfer cwblhau tasgau. Fodd bynnag, nid yw meysydd i'w datblygu a nodwyd o ran addysgu yn cael eu cynnwys gyda'r blaenoriaethau gwella. Mae'r ysgol yn cofnodi ystod eang o wybodaeth, ond nid yw'r drefn o ran coladu a dadansoddi hyn i hysbysu arweinwyr am ansawdd y ddarpariaeth a dylanwadu ar gynllunio wedi'i chynllunio'n ddigonol.

Fel rhan o'u trefniadau blynyddol ar gyfer sicrhau ansawdd, mae arweinwyr yn yr ysgol yn arsylwi addysgu. Mae arsylwadau sy'n rhan o reoli perfformiad yn rhoi disgrifiad mwy gwerthusol o addysgu a dysgu nag arsylwadau eraill. Nid yw'r crynodeb ysgol gyfan o gryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu, er enghraifft,

yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i staff er mwyn iddynt wybod beth i'w wella yn eu harfer, a sut.

Mae'r corff llywodraethol yn angerddol ynglŷn â'r ysgol, ac wedi ymrwymo iddi. Caiff llywodraethwyr drosolwg priodol o gyllid. Caiff y cadeirydd a'r is-gadeirydd gyfarfodydd rheolaidd â'r pennaeth, ac fe gânt wybod yn briodol am ddatblygiadau yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o ddatblygiadau cenedlaethol o ran y cwricwlwm a diwygio ADY. Mae'r graddau y mae'r llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o effaith y newidiadau hyn yn Ysgol Penmaes yn datblygu. Er bod Cyngor Ysgol cryf yn yr ysgol, ni chafwyd unrhyw gyfarfodydd ffurfiol rhwng y Cyngor Ysgol a'r corff llywodraethol. Nid yw goruchwyliaeth y corff llywodraethol a'r uwch arweinwyr o'r ddarpariaeth loeren yn Ysgol Gynradd Y Groes (Crossgates) wedi'i datblygu'n ddigonol. Serch hynny, nid oes gan y tîm arolygu unrhyw bryderon ynghylch cynnydd disgyblion, yr addysgu na'r arweinyddiaeth o ddydd i ddydd ar y safle.

Mae absenoldeb staff yn ddiweddar wedi golygu bod rhai dosbarthiadau wedi cau. Mae'r pennaeth wedi rheoli'r sefyllfa hon trwy gylchdroi'r dosbarthiadau hynny a oedd yn cau a lleihau faint o amser yr oedd disgyblion yn absennol.

Ceir ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ar gyfer staff. Mae staff yn cydweithio'n fewnol a gyda phartneriaid allanol i ymestyn dysgu a gofal, cymorth a lles y disgyblion.

## Cydymffurfio statudol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnydd o'r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch ar y safle yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  25/03/2024